



Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Adroddiad ar

**Ysgol Gynradd Edern
Ffordd y Rhos
Edern
Pwllheli
Gwynedd
LL53 8YW**

Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2020

gan

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Edern

Lleolir Ysgol Gynradd Edern ar gyrion pentref Nefyn yn awdurdod lleol Gwynedd. Mae 77 disgybl rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr, yn cynnwys chwech oed meithrin rhan-amser. Mae'r disgyblion yn cael eu haddysgu mewn tri dosbarth oed cymysg.

Dros dreigl tair blynedd, tua 14% o'r disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, sydd yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol o 18%. Mae rhan fwyaf o'r disgyblion yn siarad Cymraeg gartref ac ychydig iawn sydd o gefndir lleiafrifol ethnig. Cymraeg yw prif gyfrwng gwaith a bywyd yr ysgol.

Mae'r ysgol wedi adnabod tua 16% o'i disgyblion fel rhai sydd ag anghenion addysgol arbennig. Mae hyn yn is na'r ganran genedlaethol, sy'n 21%. Mae gan ychydig iawn o ddisgyblion ddatganiad o anghenion addysgol arbennig.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Mehefin 2014 a phenodwyd y pennaeth i'w swydd ym mis Medi 2016.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
<http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym>

Crynodeb

Mae'r ysgol yn gymuned hynod ofalgar sy'n ymfalchïo'n fawr yn ei Chymreictod ac yn annog ei disgyblion i wneud cynnydd da. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd cadarn ac yn cyflawni'n dda. Nodwedd benodol o fywyd yr ysgol yw safon hynod uchel ymddygiad bron pob un disgybl. Maent yn groesawgar, yn gyfeillgar iawn tuag at oedolion ac ymwelwyr, ac maent yn dangos balchder wrth siarad yn fyrlymus am eu hysgol.

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir sy'n seiliedig ar sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn gwneud gwelliant parhaus o fewn amgylchedd barchus, Gymreig. Mae'n rhannu ei gweledigaeth yn glir gyda'r staff a'r llywodraethwyr. O ganlyniad, mae gwaith tîm yn gryfder yn yr ysgol, mae'r staff yn ymroddgar, yn fodolau iaith cadarn ac yn hyrwyddo'r Gymraeg yn naturiol yn y dosbarthiadau. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar feistrolaeth y disgyblion o'r iaith a'u parodrwydd i siarad Cymraeg yn naturiol gyda'u ffrindiau. Mae gan yr ysgol systemau hynod effeithiol i olrhain cynnydd y disgyblion ac mae'r athrawon a'r cymorthyddion yn eu defnyddio'n llwyddiannus i ddarparu cefnogaeth lwyddiannus iddynt.

Maes arolygu	Barn
Safonau	Da
Lles ac agweddau at ddysgu	Da
Addysgu a phrofiadau dysgu	Da
Gofal, cymorth ac arweiniad	Da
Arweinyddiaeth a rheolaeth	Da

Argymhellion

- A1 Sicrhau bod disgyblion yn cymhwyso eu medrau rhifedd yn gyson ac i safon sy'n briodol i'w gallu ar draws y cwricwlwm
- A2 Sicrhau bod cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain, trwy benderfynu ar beth a sut y maent am ddysgu
- A3 Gwella effeithiolrwydd grŵpiau llais disgyblion er mwyn iddynt ddeall eu hawliau a dylanwadu'n uniongyrchol ar fywyd a gwaith yr ysgol

Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

Prif ganfyddiadau

Safonau: Da

Wrth gychwyn yn yr ysgol, mae medrau sylfaenol rhan fwyaf o'r disgyblion yn cyfateb i'r hyn a ddisgwylir ar gyfer eu hoed. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, maent yn gwneud cynnydd da ac yn dwyn i gof eu dysgu blaenorol yn llwyddiannus. Mae disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn gwneud cynnydd da yn erbyn eu targedau.

Mae medrau llythrennedd rhan fwyaf y disgyblion yn gryfder. O'r cychwyn cyntaf, mae disgyblion y cyfnod sylfaen yn gwrando'n astud iawn, gan fynegi barn yn hyderus. Er enghraifft, wrth fesur tymheredd yn ddyddiol, maent yn trin a thrafod eu canfyddiadau yn synhwyrol, yn gwrando ar farn eraill ac yn rhesymu'n synhwyrol gan ddefnyddio iaith goeth. Mae rhan fwyaf disgyblion pen uchaf y cyfnod sylfaen yn cyfrannu'n aeddfed at drafodaethau, er enghraifft wrth egluro cyfarwyddiadau ar fwydo adar yn y gaeaf.

Ar draws cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf yn gwrando'n dda ac yn siarad yn hyderus yn y ddwy iaith gan ddefnyddio patrymau graenus a geirfa gyfoethog. Er enghraifft, wrth drafod chwedl ym Mlwyddyn 5 a 6, mae disgyblion yn disgrifio Brenin Arthur yn hynod effeithiol. Nodwedd gref a chyson yw'r ffordd mae'r disgyblion yn defnyddio'r iaith Gymraeg yn naturiol a meistrolgar gyda'u ffrindiau.

Mae rhan fwyaf y disgyblion ar draws yr ysgol yn darllen yn fedrus gan fwynhau llyfrau ffuglen a ffeithiol. Yn y cyfnod sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn datblygu medrau darllen cynnar yn gyflym. Erbyn diwedd Blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf yn datblygu'n ddarllenwyr hyderus ac yn cymhwyso'u medrau yn effeithiol. Er enghraifft, maent yn darllen a chywain gwybodaeth am bengwiniad i greu ffeil o ffeithiau. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf yn ddarllenwyr rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg. Maent yn trafod eu llyfrau'n aeddfed gan fynegi barn yn glir. Wrth ddarllen ar goedd, maent yn newid goslef llais yn hynod effeithiol i gynnal diddordeb cynulleidfa. Mae hyn yn gryfder yn yr ysgol.

Mae rhan fwyaf disgyblion y cyfnod sylfaen yn datblygu medrau ysgrifennu o safon uchel. Erbyn diwedd Blwyddyn 2, maent yn ysgrifennu at wahanol ddibenion yn dda gan ddefnyddio amrywiaeth eang o ansoddeiriau a phatrymau addas. Er enghraifft, maent yn ysgrifennu'n estynedig a diddorol am eu hatgofion o ddathliadau'r Nadolig.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn ysgrifennu'n aeddfed iawn yn y ddwy iaith. Maent yn defnyddio cystrawennau cynyddol gymhleth ac yn atalnodi'n gywir. Erbyn pen uchaf cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf yn creu darnau creadigol a ffeithiol yn hynod lwyddiannus. Maent yn gwneud defnydd effeithiol o idiomau a chymariaethau perthnasol i gyfoethogi'u hysgrifennu. Er enghraifft, maent wedi ysgrifennu llythyr ffurfiol effeithiol iawn o safbwynt Yr Arglwydd Rhys i wahodd pobl Cymru i'r Eisteddfod gyntaf yn Aberteifi.

Yn gyffredinol, ar draws yr ysgol, mae safon rhifedd rhan fwyaf y disgyblion yn gadarn dda. Yn y cyfnod sylfaen, maent yn datblygu hyder wrth gyfri ac yn adnabod rhifau o oed cynnar. Maent yn fedrus wrth rifo fesul dau, pump a deg ac yn

defnyddio'u gwybodaeth i greu patrwm i addurno baner. Mae'r rhan fwyaf yn defnyddio unedau safonol i fesur hyd yn gywir, er enghraifft wrth greu addurn Nadolig allan o foncyff coeden.

Mae rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn dangos dealltwriaeth gadarn o dermau rhifedd. Mae ganddynt ddealltwriaeth drylwyr o nodweddion mathemategol, gan gynnwys gweithdrefnau adio, tynnu, lluosu a rhannu. Maent yn casglu, cyflwyno a dehongli gwybodaeth yn ddeallus ar ffurf deiagramau pei, graffiau llinell a diagramau gwasgariad. Fodd bynnag, nid ydynt yn cymhwyso eu medrau rhifedd i'r un safon ag y maent mewn gwersi mathemateg yn ddigon cyson ar draws y cwricwlwm.

Mae rhan fwyaf o ddisgyblion y cyfnod sylfaen yn datblygu eu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn briodol. Maent yn defnyddio amrediad o offer a meddalwedd yn hyderus. Er enghraifft, maent yn creu lluniau electronig ac yn defnyddio rhaglenni i atgyfnerthu eu medrau llythrennedd a rhifedd yn briodol.

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf yn cymhwyso eu medrau TGCh yn effeithiol. Er enghraifft, maent yn creu cyflwyniad pwrpasol i godi ymwybyddiaeth disgyblion eraill o bwysigrwydd bwyta'n iach. Mae eu dealltwriaeth o sut i ddefnyddio taenlenni wrth foddelu yn datblygu'n briodol.

Lles ac agweddau at ddysgu: Da

Mae ymddygiad bron pob un o'r disgyblion yn arbennig o dda. Maent yn rhyngweithio'n aeddfed â'i gilydd yn y dosbarthiadau, yn ystod amser egwyl ac wrth amrywiol weithgareddau o gwmpas yr ysgol. Mae'r disgyblion yn groesawgar, yn gyfeillgar iawn tuag at oedolion ac ymwelwyr, ac yn dangos balchder wrth siarad yn fyrlymus am eu hysgol. Mae bron pob disgybl yn mwynhau bywyd a gwaith yr ysgol ac yn teimlo'n ddiogel o fewn yr ethos cynhaliol sy'n bodoli yno. Mae bron pob un disgybl yn ofalgar o'i gilydd ac mae'r 'Bydis Buarth' yn gofalu'n dda am eraill yn ystod amseroedd egwyl a chinio. Mae gan ran fwyaf y disgyblion agweddau cadarnhaol at ddysgu, ac maent yn defnyddio strategaethau meddylfryd o dwf yn effeithiol i roi cynnig iddi, i ddal ati ac i lwyddo. Maent yn canolbwyntio'n dda ar eu tasgau ac yn dyfalbarhau am gyfnodau estynedig. Maent yn cydweithio'n effeithiol, naill ai mewn grwpiau, mewn parau parablu neu drwy gynnydd cymorth i'w gilydd. Ar draws yr ysgol, mae gan ran fwyaf y disgyblion ddealltwriaeth gadarn o'r hyn sydd angen iddynt ei wneud er mwyn gwella eu gwaith.

Mae bron pob un disgybl yn deall pwysigrwydd gwneud ymarfer corff ac maent yn ymfalchïo yn yr amrywiaeth o gyfleoedd sydd ganddynt i gadw'n heini. Maent yn siarad yn frwdfrydig am weithgareddau corfforol fel gymnasteg a nofio ac yn defnyddio'r llwybrau dringo sydd ar gael ar dir yr ysgol yn rheolaidd i ddatblygu eu medrau corfforol. Mae'r rhan fwyaf yn deall pwysigrwydd bwyta'n iach a'r effaith mae hyn yn ei chael ar ddatblygiad y corff. Mae aelodau'r cyngor ysgol a'r pwyllgor eco yn dechrau cyfrannu at weithdrefnau'r ysgol. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i fesur eu heffaith ar fywyd a gwaith yr ysgol. Mae'r ysgol yn codi arian at nifer o elusennau ac yn noddï plentyn ym Mrasil. Mae hyn yn codi ymwybyddiaeth rhan fwyaf o'r disgyblion am anghenion eraill. Mae gan ran fwyaf y disgyblion ymwybyddiaeth dda o sut i gadw'n ddiogel ar y we. Erbyn diwedd y cyfnod sylfaen, mae'r disgyblion yn trafod pwysigrwydd peidio â rhannu cyfrineiriau yn hyderus, ac erbyn diwedd cyfnod

allweddol 2, maent yn datblygu dealltwriaeth gadarn o beryglon datgelu gwybodaeth bersonol. Mae rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n dda fel dinasyddion moesol a gwybodus.

Addysgu a phrofiadau dysgu: Da

Mae'r addysgu yn effeithiol ar draws yr ysgol. Mae ystod y tasgau a gyflwynir i'r disgyblion yn sicrhau bod safonau'n gyson uchel, yn arbennig mewn llythrennedd. Mae cyflwyniadau'r rhan fwyaf o'r gwersi yn eglur ac mae'r athrawon yn rhannu amcanion dysgu perthnasol gyda'r disgyblion. Mae rhan fwyaf yr athrawon yn defnyddio technegau buddiol i holi ac ymestyn dealltwriaeth y disgyblion yn effeithiol. Ymhob dosbarth, mae ethos amlwg o barch a chwarteisi at eraill yn bodoli, sy'n creu amgylchedd ddysgu gynhaliol, lle gall y disgyblion weithio'n gynhyrchiol. Trwy'r ysgol, mae'r gwersi yn adeiladu ar wybodaeth a dealltwriaeth flaenorol y disgyblion yn llwyddiannus. Mae'r oedolion i gyd yn fodolau iaith hynod fedrus. Maent yn annog y disgyblion i ehangu eu geirfa'n ddychmygus ac i ddefnyddio patrymau iaith cywir. O ganlyniad, mae rhan fwyaf y disgyblion yn siarad yn hyderus, gan ddefnyddio iaith raenus. Er enghraifft, maent yn llunio barddoniaeth o safbwynt pencerdd Owain Glyndŵr. Lle mae'r addysgu ar ei orau, mae'r oedolion yn gosod disgwyliadau uchel iawn ac yn herio'r disgyblion yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae rhan fwyaf y disgyblion yn cyrraedd safonau uchel, yn arbennig yn eu gwaith llythrennedd. Mae'r cymorthyddion yn cydweithio'n agos â'r athrawon ac maent yn cefnogi unigolion a grŵpiau o ddysgwyr yn effeithiol iawn.

Ar draws yr ysgol, mae rhan fwyaf yr athrawon yn darparu adborth llafar ac ysgrifenedig sy'n helpu'r disgyblion i wybod pa mor dda y maent yn ei wneud a sut i wella eu gwaith. Maent yn darparu cyfleoedd cynyddol i ddisgyblion adolygu a gwneud addasiadau i'w gwaith eu hunain ac i waith eu cyfoedion. Ar y cyfan, mae cydbwysedd priodol rhwng y cyfleoedd sydd ar gael i ddisgyblion weithio'n annibynnol a'r profiadau sy'n cael eu rheoli gan oedolion. Fodd bynnag, mae tueddiad, ar adegau, i athrawon arwain gormod ar y gweithgareddau, ac mae hyn yn cyfyngu ar gyfleoedd i ddisgyblion gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain.

Mae'r athrawon yn cynllunio gweithgareddau'r cwricwlwm yn ofalus, sy'n datblygu medrau llythrennedd a ThGCh disgyblion yn effeithiol ar draws yr holl feysydd dysgu. Mae themâu trawsgwricwlaidd a rhaglenni gwaith buddiol yn ymestyn gwybodaeth a dealltwriaeth y disgyblion yn llwyddiannus ac yn cryfhau eu hymrwymiad i'w gwaith yn dda. Fodd bynnag, nid ydynt bob amser yn sicrhau bod disgyblion yn cymhwyso'u medrau rhifedd i'r un graddau mewn agweddau eraill o'r cwricwlwm ag y maent mewn gwersi mathemateg. Mae'r profiadau dysgu hyn bodloni anghenion rhan fwyaf y disgyblion yn llwyddiannus. Yn ddiweddar, mae athrawon wedi dechrau addasu'r cynlluniau trwy gynnig mwy o gyfleoedd i ddisgyblion wneud penderfyniadau mewn perthynas â'u gwaith. Fodd bynnag, nid yw'r cynllunio'n ddigon hyblyg i ymateb digon i ddiddordebau a syniadau disgyblion yn rheolaidd.

Mae'r athrawon yn cynllunio'n llwyddiannus ar gyfer datblygu'r dimensiwn Cymreig ac mae hyn yn atgyfnerthu'r ymdeimlad o falchder yn y disgyblion at eu hardal leol a diwylliant Cymru. Mae ethos Cymreig cryf yn bodoli ac mae'r ddarpariaeth yn annog y disgyblion i ymfalchïo yn eu hetifeddiaeth a'u Cymreictod.

Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae ansawdd y gofal, y cymorth a'r arweiniad sy'n cael ei ddarparu i'r disgyblion yn effeithiol. O ganlyniad, mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o werthoedd fel gonestrwydd a thegwch ac mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Fodd bynnag, ychydig iawn o gyfleoedd sydd i ddisgyblion ddatblygu eu dealltwriaeth o Hawliau Plant fel y'u nodir gan y Cenhedloedd Unedig. Mae'r ethos gofalgar a chynhaliol sy'n bodoli yn cael effaith gadarnhaol ar les ac ymddygiad y disgyblion. Mae staff yn adnabod y plant yn dda iawn ac yn ymateb yn effeithiol i'w hanghenion addysgol ac emosiynol unigol. O ganlyniad, mae rhan fwyaf y disgyblion yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, ac mae hyn yn helpu i ddatblygu eu hunanhyder a'u hunan-barch.

Mae gan yr ysgol systemau trwyadl iawn i olrhain cynnydd disgyblion yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Mae athrawon yn defnyddio'r wybodaeth hon yn bwrpasol er mwyn adnabod anghenion yr holl ddisgyblion, gan gynnwys y rheini sy'n profi anawsterau dysgu mewn llythrennedd a rhifedd. Mae'r wybodaeth hon yn eu galluogi i ddarparu ymyraethau priodol o safon uchel iddynt pan fo angen fel eu bod yn gwneud cynnydd da tuag at eu targedau. Mae gan bob un disgybl sydd ag anghenion addysgol arbennig gynllun dysgu priodol sy'n canolbwyntio'n dda iawn ar eu hanghenion penodol. Mae'r targedau'n addas ac yn cael eu rhannu'n bwrpasol gyda staff, rhieni a disgyblion. Mae athrawon yn gweithio'n agos gyda'r disgyblion a'r rhieni i fonitro'r cynlluniau hyn yn rheolaidd. Mae'r ysgol yn cydweithio'n hynod effeithiol gyda gwasanaeth cyfathrebu a rhyngweithio'r awdurdod lleol. Mae hyn yn sicrhau bod disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn derbyn cefnogaeth a chynhaliadaeth lwyddiannus.

Mae cyswllt cadarn yn bodoli rhwng yr ysgol â'r rhieni, ac mae dulliau anfon negeseuon testun a rhannu gwybodaeth ar gyfryngau cymdeithasol yn llwyddo'n dda i hysbysu rhieni am ddigwyddiadau a gweithgareddau'r ysgol.

Mae'r ddarpariaeth i ddatblygu medrau moesol, ysbrydol a chymdeithasol y disgyblion yn effeithiol. Trwy wasanaethau torfol a chysylltiadau ag ymwelwyr a ffrindiau'r ysgol, mae medrau moesol ac ysbrydol y disgyblion yn datblygu'n dda. Mae'r staff yn dechrau cynllunio cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu hymwybyddiaeth a'u gwybodaeth am rannau eraill o'r byd yn addas. Mae trefniadau priodol yn bodoli ar gyfer ethol aelodau o'r cyngor ysgol a phwyllgor eco. Fodd bynnag, prin iawn yw'r cyfleoedd i'r swyddogion wneud penderfyniadau ar lefel ysgol ac i ddylanwadu ar drefniadau dyddiol. Mae gan yr ysgol drefniadau cadarn i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach, ac maent yn rhoi cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion hŷn greu cyflwyniadau i'w cyfoedion i rannu gwybodaeth berthnasol sy'n ymwneud â hyn. Mae ddarpariaeth yr ysgol ar gyfer datblygu medrau diwylliannol a chreadigol disgyblion yn gadarn. Mae'r ysgol yn dathlu llwyddiant cyson yng nghwis llyfrau blynyddol Cyngor Llyfrau Cymru ac yn sicrhau bod gan ddisgyblion gyfleoedd rheolaidd i gymryd rhan mewn cyngherddau ysgol ac Eisteddfodau'r Urdd. Gwneir defnydd priodol o ymwelwyr i ehangu profiadau celfyddydol y disgyblion, er enghraifft wrth iddynt groesawu cwmni drama i berfformio sioe am Owain Glyndŵr ac awduron a beirdd. Mae'r cyfleoedd hyn yn cyfoethogi profiadau'r disgyblion yn addas ac yn codi eu hunanhyder yn effeithiol.

Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da

Mae gan y pennaeth ddisgwyliadau uchel a gweledigaeth glir sy'n seiliedig ar sicrhau bod disgyblion yn gwneud gwelliant parhaus o fewn amgylchedd gofalgar, Cymreig. Mae'r athrawon a'r cymorthyddion yn gwireddu'r weledigaeth hon yn llwyddiannus trwy weithredu ar y gwerthoedd hyn yn gyson. Mae gwaith tîm yn gryfder yn yr ysgol, gyda'r staff ymroddgar yn cydweithio'n llwyddiannus i gynnal safonau da. Mae amcanion strategol a gweithdrefnau'r ysgol yn gadarn, a chanddynt ffocws clir ar godi safonau disgyblion. Mae rolau a chyfrifoldebau'r staff wedi eu diffinio'n dda, ac mae pob un yn cyflawni eu dyletswyddau yn gydwybodol ac effeithiol.

Mae'r llywodraethwyr yn adnabod yr ysgol a'i chymuned yn dda. Maent yn cefnogi gwaith yr ysgol ac yn ymgymryd â'u dyletswyddau yn gydwybodol. Mae llawer ohonynt yn ymweld â'r ysgol yn gyson, yn craffu ar lyfrau ac yn gwrandao ar ddysgwyr. O ganlyniad, mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o safonau cyrhaeddiad y disgyblion, ynghyd ag ansawdd yr addysgu. Trwy dderbyn, a thrafod adroddiadau trylwyr y pennaeth, maent yn cyfrannu'n ddoeth at osod cyfeiriad strategol yr ysgol. Maent yn defnyddio'u gwybodaeth a'u dealltwriaeth gadarn yn llwyddiannus er mwyn herio'r ysgol, ac i ddatblygu eu rôl yn effeithiol fel ffrindiau beirniadol.

O dan arweinyddiaeth gadarn y pennaeth, mae'r athrawon yn cyfrannu'n gyson at weithdrefnau hunanwerthuso'r ysgol trwy fonitro ansawdd yr addysgu, craffu ar lyfrau gwaith y disgyblion a dadansoddi data. O ganlyniad, mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o gryfderau'r ysgol a'r meysydd sydd angen eu gwella. Mae'r gweithdrefnau gwerthuso trefnus a bwriadus yn cyfrannu'n llwyddiannus at osod blaenoriaethau priodol i wella'r ddarpariaeth a chodi safonau. Fodd bynnag, prin yw'r cyfleoedd i'r rhieni a'r disgyblion gyfrannu at y broses werthuso a gosod blaenoriaethau strategol yr ysgol. Mae'r arweinwyr yn monitro'r cynnydd yn erbyn y blaenoriaethau yng nghynllun datblygu'r ysgol yn rheolaidd. O ganlyniad, mae gan yr ysgol hanes cryf o gynnal safonau uchel, fel medrau llafar, darllen ac ysgrifennu Cymraeg y disgyblion. Mae arweinwyr yn cynllunio'n ofalus i fodloni blaenoriaethau cenedlaethol ac yn dechrau addasu'r cynlluniau gwaith cyfredol i baratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd i Gymru a'r fframwaith cymhwysedd digidol.

Mae'r arweinwyr yn darparu cyfleoedd da i'r athrawon a'r cymorthyddion wella eu harfer yn rheolaidd. Mae'r staff yn rhannu arfer dda o fewn yr ysgol trwy gynnal arsylwadau dosbarth a chydweithio i greu cynlluniau gwersi. Gwneir defnydd da o arbenigeddau staff i addysgu pynciau fel addysg gorfforol, cerdd ac addysg grefyddol. Yn dilyn ymweliadau ag ysgolion eraill a chyrsgiau penodol, mae'r staff yn arwain cyfarfodydd i rannu gwybodaeth, sy'n cyfoethogi dysgu proffesiynol pawb yn llwyddiannus. Mae'r trefniadau eisoes wedi cael effaith gadarnhaol ar y ddarpariaeth yn yr ardaloedd awyr agored yn y cyfnod sylfaen ac ar ddatblygu gweithdrefnau cefnogi disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae'r ysgol yn cydweithio'n llwyddiannus gydag ysgolion y dalgylch i wella'r ddarpariaeth ar gyfer y disgyblion, fel cyd-gynllunio gweithgareddau o fewn themâu penodol i ddosbarthiadau'r cyfnod sylfaen a chyfnod allweddol 2. Maent hefyd yn cyd-gymedroli gwaith disgyblion, sy'n cyfrannu'n dda at sicrhau cywirdeb a chysondeb mewn asesiadau. Mae'r ysgol yn cydweithio'n effeithiol ag asiantaethau allanol, fel y gwasanaethau cymdeithasol, seicolegwyr addysg ac arbenigwyr meddygol. Mae'r partneriaethau hyn yn cefnogi'r disgyblion mwyaf bregus a'u teuluoedd yn llwyddiannus.

Adroddiad ar Ysgol Gynradd Edern
Ionawr 2020

Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn rheoli'r gyllideb yn ofalus ac mae gwariant yn cysylltu'n dda â'r cynlluniau ar gyfer gwella. Maent yn cadw llygad craff ar wariant er mwyn sicrhau gwerth am arian. Gwneir defnydd priodol o'r grant datblygu disgyblion i gefnogi'r unigolion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim.

Sail dystiolaeth ar gyfer yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli' trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwranddo arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

Copiâu o'r adroddiad

Mae copiâu o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

Rhagorol	Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig
Da	Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau
Digonol ac angen gwelliant	Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella
Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys	Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

© Hawlfraint y Goron 2020: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 23/03/2020